.

Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales

# LLAWLYFR
# Sgiliau Hanfodol Cymru

# Essential Skills Wales
# HANDBOOK

# Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales

## Croeso | Welcome

### Croeso i Gwrs Hyblyg Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC)

**Welcome to the Flexible Essential Skills Wales Course (ESW)**

| Cod / Code | Teitl / Title |
|---|---|
| **601/6828/6** | Lefel 2 / Level 2<br>**Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu**<br>**/ Essential Communication Skills** |
| **601/6847/X** | Lefel 2 / Level 2<br>**Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif**<br>**/ Essential Application of Number Skills** |

.

# LLAWLYFR DYSGWYR | LEARNER HANDBOOK

**Cynnwys** | **Content**


| Cynnwys | | Content | |
|---|---|---|---|
| Manylion Cyswllt | 4 | Contact Details | 4 |
| Siarter Dysgwyr | 5 | Learner Charter | 6 |
| Beth yw Sgiliau Hanfodol? | 7 | What are Essential Skills? | 8 |
| Gwybodaeth am y cwrs | 9 | Course Information | 10 |
| Gwybodaeth Pwysig am asesiadau | 11 | Important Assessment Information | 11 |
| Gwybodaeth Asesiadau | 12,14,16 | Assessment Information | 15,15,17 |
| Roles within the centre | 18 | Rolau o fewn y canolfan | 18 |
| Trefn Apelio yn erbyn Asesiadau | 19 | Assessment Appeals Procedure | 19 |
| Cwestiynau Cyffredin | 20-22 | Frequently Asked Questions | 23-25 |

.

## Manylion Cyswllt | Contact Details:

| | |
|---|---|
| Canolfan Asesu<br>Assessment Centre | **Addysg Oedolion Cymru \| Adult Learning Wales** |
| Hwylusydd Sgiliau Hanfodol Hyblyg (SHH)<br>Flexible Essential Skills Facilitator (FES) | **Sian Williams** |
| Manylion Cyswllt<br>Contact Details | sian.williams@adultlearning.wales<br>**02920 382431** |
| Tiwtor \| Aseswr<br>Tutor \| Assessor | ______________________________________ |
| Manylion Cyswllt | Mae tiwtoriaid amrywiol yn cyflwyno SH, byddwch yn cael y manylion cyswllt ar gyfer eich tiwtor gan yr Hwylusydd SHH cyn i chi ddechrau eich sesiwn dan arweiniad tiwtor. |
| Contact Details | Various tutors deliver ES, you will be given the contact details for your tutor by the FES Facilitator before you start your tutor-led session |
| Manylion Cyswllt Tîm Sicrhau Ansawdd Mewnol<br>Internal Quality Assurance Team Contact Details | addysg-quality-assurance@adultlearning.wales |

## Siarter Dysgwyr

Mae Addysg Oedolion Cymru yn darparu cyfleoedd addysgol mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru.

Cynigir rhaglenni astudio ar lefelau  mynediad a sylfaenol.  Diben cyffredinol yr holl gyfleoedd dysgu yw grymuso dysgwyr fel byddant yn hyderus yn eu gallu i lwyddo.

Caiff yr holl fyfyrwyr:

- eu trin a pharch cyfartal, ac os gellir sicrhau hynny, cânt fynediad cyfartal at holl ddarpariaeth Addysg Oedolion Cymru
- eu haddysgu mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn annog dysgu effeithiol
- dderbyn gwybodaeth am eu cynnydd trwy ddull cefnogol
- manylion asesiadau mewn da bryd cyn dyddiadau cyflwyno'r asesiadau hynny

Bydd yr holl fyfyrwyr yn cael

- proses o asesu cychwynnol i adnabod anghenion dysgu ac i gydnabod y wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddynt eisoes
- eglurhad o amcanion, canlyniadau a meini prawf asesu'r cwrs
- hyfforddiant sy'n gyson ag amcanion y cwrs a gofynion unigol
- cyngor ynghylch llwybrau dilyniant
- cyngor am gyrsiau eraill o fewn y sefydliad a rhai a gynigir gan ddarparwyr eraill
- mynediad at drefn gwyno agored, deg ac effeithiol

Bydd y Sefydliad yn ystyried unrhyw gŵyn am ei ddarpariaeth Addysg Bellach gan ddilyn y weithdrefn gwyno briodol.

.

## Learner Charter

Adult Learning Wales provides educational opportunities in community settings throughout Wales.

Programmes of study are offered at entry and foundation level. The broad base of all learning is to empower learners to have confidence in their own ability to succeed.

All learners will be:

- treated with equal respect and, wherever possible, given equality of access to all of Adult Learning Wales provision
- taught in an environment that is both safe and conducive to effective learning
- given information on their progress in a supportive manner
- given details of assessment well in advance of completion dates

All learners will receive

- a process of initial assessment to identify learning needs and acknowledge previously acquired relevant knowledge/skills
- an explanation of course objectives and outcomes and assessment criteria
- tuition consistent with course objectives and individual requirements
- advice on progression routes
- advice on alternative courses of studies both within the institution and offered by other providers
- access to an open, fair and effective complaints procedure

The Organisation will consider any complaint related to its Further Education provision through the appropriate complaint procedure.

.

## Beth yw Sgiliau  Hanfodol?

Mae Sgiliau Hanfodol yn sgiliau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer dilyniant a llwyddiant mewn addysg, y gweithle a bywyd yn gyffredinol.
Maent yn cynnwys:

- Cyfathrebu
- Cymhwyso Rhif

Yn Addysg Oedolion Cymru rydym yn cynnig Rhaglenni Sgiliau Hanfodol Hyblyg mewn Cyfathrebu (Saesneg) a Chymhwyso Rhif (Mathemateg) er mwyn helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a derbyn eu cymhwyster.

Mae gennym raglen ddysgu sydd ar gael drwy'r rhyngrwyd, ond gyda'r fantais ychwanegol o gael tiwtor arbenigol i'ch cefnogi ar eich taith ddysgu.

## Beth sydd ei angen arnaf i gael mynediad at y Rhaglen Sgiliau Hanfodol Hyblyg?

Gan mai cwrs ar-lein yw hwn, byddai angen y canlynol arnoch:

- Cysylltiad rhyngrwyd
- Gliniadur neu gyfrifiadur gyda gwe gamera a meicroffon; gallai defnyddio clustffonau fod yn fanteisiol hefyd
- defnyddio porwr gwe *Chrome* lle bo modd

Sylwch fod ein cyrsiau ar-lein yn gofyn am ddefnyddio apiau Microsoft Office 365 a'n hamgylchedd dysgu rhithwir, Moodle. Ar ôl cofrestru ar un o’n cyrsiau, rydym yn darparu mynediad am ddim i'r gwasanaethau hyn.

Os nad oes gennych rywfaint o'r cyfarpar angenrheidiol, cysylltwch â'r Hwylusydd Sgiliau Hanfodol Hyblyg (Sian Williams), gan ei bod hi yn medru eich cefnogi bob cam o'r ffordd ac efallai y byddwn yn gallu eu benthyg i chi.

.

## What are Essential Skills?

Essential Skills are skills considered to be required for progression and success in education, the workplace and life in general.

They include:

- Communication
- Application of Number

At Adult Learning Wales we offer Flexible Essential Skills Programmes in Communication (English) and Application of number (Maths) in order to help learners develop their skills and achieve their qualification.

We have a learning programme accessible through the internet, but with the added benefit of a specialist tutor to support you through your learning journey.

## What will I need to access the Flexible Essential Skills Programme?

As this is an online course, you would need the following:

- Internet access
- Access to a laptop or computer with a web camera and microphone; the use of headphones might also be beneficial
- use of the Chrome web-browser where possible

Please note that our online courses require the use of Microsoft Office 365 apps and our virtual learning environment, Moodle. Once enrolled on a course with us we provide free access to both of these services.

If you do not have some of the equipment you need please contact the Flexible Essential Skills Facilitator (Sian Williams), she can support you every step of the way and we may be able to loan you a device or equipment to use during your studies.

.

## Gwybodaeth am y Cwrs

## Sgiliau Hanfodol - Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif

### Sut mae'n gweithio

**Cam 1 -** Cofrestru ar y rhaglen

**Cam 2** – Byddwch yn cael eich cefnogi i gwblhau asesiad Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST). Mae Asesiad WEST yn brawf byr ar-lein sy'n ein helpu i bennu eich lefel gyfredol ac yna i'ch neilltuo i'r rhaglen lefel gywir i chi.

**Cam 3** –Byddwch yn cael eich cefnogi i ddechrau gweithgareddau dysgu ar-lein hunan-arweiniol i'ch helpu i symud ymlaen i safon lefel 2.

Gallwch weithio ar eich cyflymder eich hun ac mae cymorth ar gael bob amser.

Bydd yr hwylusydd Sgiliau Hanfodol Hyblyg Sian Williams yn cysylltu gyda chi'n rheolaidd i drafod cynnydd, ateb cwestiynau ac ati.

Y cyfan fydd ei angen arnoch yw cyfrifiadur neu ddyfais symudol i'ch galluogi i gael mynediad i'r llwyfan dysgu.

Os nad yw hyn yn addas i chi, gallwn eich cysylltu â chyrsiau sgiliau hanfodol ar-lein neu wyneb yn wyneb lle gallwch adeiladu eich sgiliau.

**Cam 4** – Unwaith y byddwch yn gweithio ar safon lefel 2 byddwch yn gallu symud ymlaen i gwrs ar-lein dan arweiniad tiwtor lle byddwch yn dechrau paratoi ar gyfer;

**Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif Lefel 2 (ar gael yn Gymraeg a Saesneg)**
**a / neu**
**Lefel 2 Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol**

Bydd yr Hwylusydd Sgiliau Hanfodol yn cysylltu gyda chi i drafod opsiynau ac yn eich arwain i'r cwrs iawn i chi.

Byddwch yn cael gwybod am ddyddiadau'r arholiadau dosbarth, ac fe fyddwch yn cael eich bwcio i fynychu'r lleoliad mwyaf addas i sefyll eich profion.

**Gweler isod restr o leoliadau sydd ar gael i chi sefyll eich arholiad:**

- Wrecsam
- Bangor
- Y Drenewydd
- Caerdydd
- Abertawe
- Glyn Ebwy

Mae lleoliadau addas eraill hefyd yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen.
Bydd eich tiwtor neu gydlynydd Sgiliau Hanfodol yn rhoi cyfeiriad llawn y lleoliad i chi pan fyddwch yn bwcio eich arholiad.

.

# Course Information

## Essential Skills - Communication and Application of Number

### How it works

**Step 1** – Enrol on the programme

**Step 2** – You will be supported to complete the Wales Essential Skills Toolkit (WEST) assessment. The WEST Assessment is a short online test that helps us to determine your current level and to then assign you to the right level programme for you.

**Step 3** – You will be supported to start self-led online learning activities to help you progress up to a level 2 standard.

You can work at your own pace and support is always available.

The Flexible Essential Skills facilitator Sian Williams will check in with you regularly to discuss progress, answer questions etc.

All you will need is a computer or mobile device to enable you to access the learning platform.

If this isn't suitable for you, we can link you to online or face to face essential skills courses where you can build your skills.

**Step 4** – Once you are working at level 2 standard you will be able to progress to a tutor led online course where you start preparing for the;

**Level 2 Essential Application of Number Skills (available in Welsh and English)**
**and / or**
**Level 2 Essential Communication Skills**

You will be contacted by the Essential Skills Facilitator to discuss options and linked to the right course for you.

You will be made aware of the dates for the classroom-based exams, and you will be booked to attend the most suitable venue to sit your tests.

**Below is a list of locations that are available for you to sit your exam**:

- Wrexham
- Bangor
- Newtown
- Cardiff
- Swansea
- Ebbw Vale

other suitable venues will also be used as needed.
Your tutor or Essential Skills co-ordinator will give you the full address of the venue when you book your exam.

.

## Gwybodaeth Pwysig am asesiadau

### Addasiadau Rhesymol
Rhaid i bob addasiad rhesymol gael ei gymeradwyo gan y Sefydliad Dyfarnu, Agored Cymru. Fel y cyfryw rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu rhannu gyda'u tiwtor **cyn** i'r asesiadau cael eu cynnal.

### Presenoldeb
Er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i sefyll asesiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, rhaid i bob dysgwr gael presenoldeb o 80% neu fwy yn y sesiynau addysgu byw.

### Adnabod / ID
Cofiwch ddod â llun ID e.e. trwydded yrru neu basbort ar ddiwrnod eich arholiad.

### Ailsefyll
Mae pob tasg dan reolaeth yn cael ei graddio fel wedi pasio neu wedi methu, a lle mae ymgeiswyr wedi bod yn aflwyddiannus bydd angen iddynt ailsefyll, bydd angen iddynt ailsefyll tasg wahanol i'r ystod sydd ar gael a bydd angen cyfle pellach i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau perthnasol cyn ailsefyll. Bydd eich tiwtor yn rhoi gwybod i chi pan fyddwch yn barod i ailsefyll y dasg dan reolaeth neu/a'r prawf er mwyn cadarnhau.

## Important Assessment Information

### Reasonable Adjustments
All reasonable adjustments must be approved by the Awarding Organisation Agored Cymru. As such candidates must ensure that both access arrangements and reasonable adjustments are shared with their tutor **prior** to any assessments taking place.

### Attendance
To ensure you are eligible to sit the Essential Skills Wales assessments, all learners must have an attendance of 80% or over in the live teaching sessions.

### ID
Please remember to bring a photo ID e.g Driving licence or Passport on the day of your exam.

### Resits
All controlled tasks are graded pass or fail, and where candidates have been unsuccessful they will need to resit, they will need to resit a different task from the range available and will require further opportunity to develop and practice the relevant skills before resitting. Your tutor will let you know when you are ready to resit the controlled task or/and confirmatory test.

.

## Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu

Mae'r cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar y sgiliau canlynol:

- Siarad a Gwrando
- Darllen
- Ysgrifennu

Mae'r dyfarniad hwn yn defnyddio dull asesu integredig sy'n adlewyrchu'r gydberthynas rhwng darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando.

Mae angen cwblhau asesiad crynodol dwy ran yn llwyddiannus i gyflawni'r cymhwyster hwn; **tasg dan reolaeth** sy'n cael ei gosod yn allanol a'i hasesu'n fewnol a **phrawf er mwyn cadarnhau** sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol.

Yr amser gweithio sy'n cael ei ganiatáu i gwblhau'r **dasg dan reolaeth** yw **hyd at 5 awr** oni bai bod amser ychwanegol yn cael ei ganiatáu fel addasiad rhesymol. Gall yr asesiad 5 awr yma gael i cwbwlhau dros nifer o sesiynau, mae fel arfer yn awgrymu y bydd dysgwyr yn defnyddio 2 sesiwn 2.5 awr i cwbwlhau.

Rhoddir hyd at **45 munud** i ymgeiswyr gwblhau'r **prawf er mwyn cadarnhau**.

| | **Lefel 2** |
|---|---|
| **Rhan 1** | Darllen (2 Ddogfen)<br>Trafodaeth<br>Tasg Ysgrifenedig |
| **Rhan 2** | Tasg Ysgrifenedig |
| **Rhan 3** | Cyflwyniad |

Rhoddir dogfennau ffynhonnell i ymgeiswyr; bydd cynnwys y dogfennau hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y tasgau ysgrifennu a thrafod a roddir. Ar Lefel 2, bydd gofyn i ymgeiswyr roi cyflwyniad hefyd.

### Recordio Asesiadau

Wrth gwblhau elfennau siarad a gwrando eich arholiad Cyfathrebu mae'n ofynnol bod eich trafodaeth a'ch cyflwyniad yn cael eu recordio, mae'r recordiadau hyn at ddibenion asesu yn unig a dim ond personél awdurdodedig o fewn ein sefydliad sy'n cael mynediad iddynt.

Wrth gwblhau'r elfennau siarad a gwrando rhaid bod o leiaf 3 o bobl yn cymryd rhan yn eich trafodaeth a 3 aelod o'r gynulleidfa wrth gyflwyno'ch cyflwyniad. Peidiwch â phoeni am hyn, bydd eich goruchwyliwr yn sicrhau bod digon o bobl yn bresennol i warantu bod yr asesiad yn mynd yn ei flaen fel y cynlluniwyd.

Ar ddiwrnod y dasg dan reolaeth a'r prawf, darperir papur, beiros, aroleuwyr, geiriaduron (Cyfathrebu), papur Graff (Adio Rhifau) a USB i gadw'ch asesiadau.

.

## Level 2 Essential Communication Skills

This qualification focuses on the following skills:

- Speaking and Listening
- Reading
- Writing

This award employs an integrated assessment approach which reflects the inter-relationship between reading, writing, speaking and listening.

Successful completion of a two-part summative assessment is required to achieve this qualification; a **controlled task** that is externally set and internally assessed and a **confirmatory test** that is externally set and marked.

The working time allowance to complete the **controlled task** is **up to 5 hours** unless extra time is granted as a reasonable adjustment. This 5 hour assessment can be completed over a number of sessions, it is often recommended that learners take two 2.5 hour sessions.

Candidates are granted up to **45 minutes** to complete the **confirmatory test**.

| | **Level 2** |
|---|---|
| **Part 1** | Reading (2 Documents)<br>Discussion<br>Written Task |
| **Part 2** | Written Task |
| **Part 3** | Presentation |

Candidates are provided with source documents; the content of these documents will be used for the given writing and discussion tasks. At Level 2, candidates will also be required to give a presentation.

## Recording of Assessments

When completing the speaking and listening elements of your Communications exam there is a requirements that your discussion and presentation are recorded, these recordings are for assessment purposes only and are only accessed by authorised personnel within our organisation.

When completing the speaking and listening elements there must be at least 3 people participating in your discussion and 3 audience members when presenting your presentation. Do not worry about this, your invigilator will ensure that there are enough people present to guarantee the assessment goes ahead as planned.

On the day of the controlled task and test, paper, pens, highlighters, dictionaries (Communications), Graph paper (Addition of Numbers) and USB’s to save your assessments are provided.

.

## Lefel 2 Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif

Mae'r cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar arddangos sgiliau mewn:

- Deall data rhifiadol
- Gwneud cyfrifiadau
- Dehongli canlyniadau a chyflwyno canfyddiadau

Mae angen cwblhau asesiad crynodol dwy ran yn llwyddiannus i gyflawni'r cymhwyster hwn; **tasg dan reolaeth** sy'n cael ei gosod yn allanol a'i hasesu'n fewnol a **phrawf er mwyn cadarnhau** sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol.

Yr amser gweithio sy'n cael ei ganiatáu i gwblhau'r **dasg dan reolaeth** yw **hyd at 5 awr** oni bai bod amser ychwanegol yn cael ei ganiatáu fel addasiad rhesymol. Gall yr asesiad 5 awr yma gael i cwbwlhau dros nifer o sesiynau, mae fel arfer yn awgrymu y bydd dysgwyr yn defnyddio 2 sesiwn 2.5 awr i cwbwlhau.

Rhoddir hyd at **45 munud** i ymgeiswyr gwblhau'r **prawf er mwyn cadarnhau**.

Mae'r dull asesu a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn yn sicrhau y gall ymgeiswyr ddewis y data a'r dulliau mwyaf priodol i ddatrys problem ac adrodd ar y canfyddiadau. Darperir dogfennau ffynhonnell lle gall yr ymgeiswyr ddewis y data angenrheidiol i gwblhau'r gweithgaredd.

.

## Level 2 Essential Numeracy Skills

This qualification focuses on demonstrating skills in:

- Understanding numerical data
- Carrying out calculations
- Interpreting results and presenting findings

Successful completion of a two-part summative assessment is required to achieve this qualification; a **controlled task** that is externally set and internally assessed and a **confirmatory test**, in this case a **test** that is externally set and marked.

The working time allowance to complete the **controlled task** is **up to 5 hours** unless extra time has been granted as a reasonable adjustment. This 5 hour assessment can be completed over a number of sessions, it is often recommended that learners take two 2.5 hour sessions.

Candidates are granted up to **45 minutes** to complete the **confirmatory test**.

The method of assessment employed within this qualification ensures that candidates can select the most appropriate data and methods to solve a problem and report the findings. Source documents are provided from which the candidates are able to select the required data to complete the activity.

## Cyfarpar ac adnoddau a ganiateir (Tasg dan reolaeth)

Cynlluniwyd y dasg dan reolaeth i asesu'r broses o drosglwyddo a chymhwyso'r sgiliau hanfodol perthnasol.

Caniateir i ymgeiswyr, ond nid ydynt yn gyfyngedig, i ddefnyddio'r offer canlynol yn yr amgylchedd asesu:

- Cyfrifiaduron Personol/Gliniaduron/Ffonau Clyfar
- Geiriaduron papur neu electronig a meddalwedd gwirio sillafu/gramadeg
- Cyfrifianellau
- Deunyddiau cyfeirio cyffredinol (**Ddim** deunyddiau cwrs neu gymhwyster penodol)
- Nodiadau cwrs neu ddosbarth perthnasol (Ar yr amod nad ydynt yn cynnwys arweiniad ar gwblhau'r dasg dan reolaeth)
- Adnoddau ar-lein (Lle maent ar gael yn agored ac yn cael eu cyrchu gan yr ymgeisydd)

**Ni chaniateir** i ymgeiswyr ddefnyddio'r canlynol yn yr amgylchedd asesu:

- Templedi cynllunio
- Canllawiau neu restrau gwirio ar gyfer cwblhau tasgau dan reolaeth
- Sampl o dasgau rheoledig (Wedi'u cwblhau neu heb eu cwblhau)

Er y caniateir i chi fedru defnyddio’r rhyngrwyd, rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw weithgaredd rhyngrwyd yn parhau i ganolbwyntio ar y dasg dan reolaeth

Gwnewch yn siŵr eich bod yn manteisio ar unrhyw gyngor a roddir i chi gan eich tiwtor er mwyn bodloni'r meini prawf asesu a'r dyddiad cau a rhowch wybod i'ch tiwtor am unrhyw anghenion cymorth sydd gennych.

**Os bydd gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r broses asesu, gofynnwch i'ch tiwtor yn y lle cyntaf**

https://www.agored.cymru/File/4818

## Permitted equipment and resources (Controlled task)

The controlled task is designed to assess the transfer and application of the relevant essential skills.

Candidates are permitted, but are not limited to make use of the following equipment within the assessment environment:

- PC's/Laptops/Smartphones
- Paper or electronic dictionaries and spelling/grammar checking software
- Calculators
- General reference materials (**Not** course or qualification specific materials)
- Relevant course or class notes (Provided they do not contain guidance on completing the controlled task)
- Online Resources (Where openly available and sourced by the candidate)
- Thesaurus or Dictionary

Candidates are **not permitted** to make use of the following in the assessment environment:

- Planning templates
- Guides or checklists for completing controlled tasks
- Sample controlled tasks (Completed or not completed)

Although access to the internet is permitted, candidates must ensure that internet activity remains focused on the controlled task

Please ensure that you take advantage of any advice given to you by your tutor in order to meet the assessment criteria and deadline date and keep your tutor informed of any support needs you may have.

**Should you have any queries related to the assessment process please ask your tutor in the first instance**

***https://www.agored.cymru/File/4818***

## Beth yw'r gwahanol rolau o fewn canolfan asesu?

**Tiwtor / Aseswyr**
Rhaid i aseswyr fod yn gymwys yn eu maes gwaith ac yn deall sut i farcio aseiniadau mewn cymhariaeth gyda'r meini prawf a osodir yn allanol. Maent yn atebol i'r corff dyfarnu ynghylch cywirdeb eu marcio a chofnodi cynnydd asesiadau unigol dysgwyr.

**Aswiriwr Ansawdd Mewnol (IQA)**
Mae gan aswirwyr sicrhau ansawdd mewnol brofiad helaeth o weithredu cymwysterau. Byddant yn sicrhau fod aseiniadau yn cael eu hasesu'n briodol a bod y dysgwr y cael y cymorth sy'n ofynnol i lwyddo. Byddant yn samplu rhai o'r darnau gwaith a asesir ac yn rhoi adborth ysgrifenedig i'r aseswyr, a gall yr adborth hwnnw nodi unrhyw weithgarwch DPP angenrheidiol.

**Aswiriwr Ansawdd Allanol (EQA)**
Penodir yr aswiriwr sicrhau ansawdd allanol gan y Corff Dyfarnu a bydd yn ymweld â'r ganolfan yn rheolaidd i gynnal gwiriadau ansawdd ar yr arfer asesu. Caiff gwaith dysgwyr ei samplu gan y Aswiriwr Ansawdd Allanol.

**Goruchwyliwr**
Mae goruchwyliwr yn gyfrifol am sicrhau bod arholiadau neu asesiadau yn cael eu cynnal mewn modd priodol o fewn yr amserlen gywir. Prif ran eu rôl yw goruchwylio dysgwyr a gwneud yn siŵr bod rheoliadau cyrff dyfarnu yn cael eu bodloni bob amser.

## What are the different roles within an assessment centre?

**Tutor / Assessors**
Assessors must be competent in the area of work and understand how to mark assignments against externally set criteria. They are responsible to the awarding body for the accuracy of their marking and recording the learner's individual assessment progress.

**Internal Quality Assurers (IQA)**
Internal quality assurers are very experienced in operating qualifications. They will check that assignments have been appropriately assessed and that the learner is receiving the required support to progress. They will sample some of the assessed work and provide assessors with written feedback which may identify any required CPD activity.

**External Quality Assurers (EQA)**
The external quality assurer is appointed by the Awarding Body and they will visit the centre at regular intervals to carry out quality checks on the assessment practice. Learners' work will be subject to sampling by the EQA.

**Invigilator**
An invigilator is responsible for ensuring that exams or assessments are conducted in an appropriate manner within the correct time frame. The main part of their role is to supervise learners and make sure that awarding body regulations are being met at all times.

## Gweithdrefn Apeliadau Asesiad Dysgwr

Dylai unrhyw ddysgwr sy'n anhapus â phenderfyniad asesu neu ganlyniad sicrwydd ansawdd mewnol/allanol ddilyn y weithdrefn apelio fel y disgrifir isod:

**Cam 1**
Rhaid i'r dysgwr ysgrifennu llythyr at y Tîm Ansawdd yn Addysg-Quality-Assurance@adultlearning.wales, yn nodi'r mater ac yn rhoi cymaint o fanylion â phosibl.

**Cam 2**
Bydd y Tîm Ansawdd yn cynnal adolygiad o'r penderfyniadau a wnaed. Bydd y dysgwr yn derbyn ateb o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr apêl, ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y dysgwr.

**Cam 3**
Os yw'r dysgwr yn teimlo bod y mater/materion yn dal heb eu datrys, rhaid i'r dysgwr ysgrifennu llythyr at y Rheolwr Ansawdd yn nodi pam nad yw'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad.

Bydd y Rheolwr Ansawdd yn cyfeirio'r mater at yr Aswiriwr Ansawdd Allanol (EQA) priodol. Mae penderfyniad yr EQA yn derfynol.

## Learner Assessment Appeal Procedure

Any learner unhappy with an assessment decision or outcome of internal/external quality assurance, should follow the appeals procedure as described below:

**Stage 1**
The learner must write a letter to the Quality Team at Addysg-Quality-Assurance@adultlearning.wales, stating the issue and giving as many details as possible.

**Stage 2**
The Quality Team will conduct a review of the decisions taken. The learner will receive a reply within 10 working days of receipt of the appeal letter, addressing the issues raised by the learner.

**Stage 3**
If the learner feels that the issue/s is/are still not resolved, the learner must write a letter to the Quality Manager stating why they are not satisfied with the outcome of the review.

The Quality Manger will refer the matter to the appropriate External Quality Assurer.  The decision of the EQA is final.

.

## Cwestiynau Cyffredin

**Sut ydw i'n cofrestru?**
Cysylltwch â'r Cydlynydd Sgiliau Hanfodol Hyblyg.
E-bostio: sian.williams@adultlearning.wales neu ffonio 02920 382431

**Gyda phwy gallaf gysylltu i drafod hyn ymhellach?**
Gallwch gysylltu â Sian Williams yr hwylusydd Sgiliau Hanfodol Hyblyg a fyddai'n hapus i drafod eich opsiynau a'ch cefnogi gyda'r broses cofrestru.

**A oes cost?**
Ariennir y cyrsiau yn rhannol gan Lywodraeth Cymru. Bydd costau yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol neu waith.
Cysylltwch â Sian Williams, yr hwylusydd Sgiliau Hanfodol Hyblyg am ragor o wybodaeth.

**Beth mae dysgu ar-lein hunan-arweiniol yn ei olygu?**
Mae dysgu hunan-arweiniol yn golygu y gallwch ddewis pryd i wneud y gweithgareddau ar amser sy'n gyfleus i chi.
Ond mae angen i chi geisio bwcio amser i mewn bob wythnos er mwyn i chi allu gwneud cynnydd.

**Beth mae dysgu ar-lein dan arweiniad tiwtor yn ei olygu?**
Mae dysgu ar-lein dan arweiniad tiwtor yn golygu y byddwch yn ymuno gyda dosbarth ar-lein a arweinir gan diwtor SHC. Byddwch yn cael eich cysylltu gyda'r dosbarth ar-lein sydd dan arweiniad tiwtor sydd fwyaf addas i chi.

**Beth yw WEST?**
WEST yw'r Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (Wales Essential Skills Toolkit)
Fe'i cynlluniwyd i fod yn ffordd syml a hawdd ei defnyddio i ddysgwyr asesu eu lefel Sgiliau Hanfodol.
Yn ogystal, mae gan WEST lawer o weithgareddau wedi'u cynllunio i helpu dysgwyr i wella eu sgiliau.
Pan fyddwch yn cwblhau eich asesiad cychwynnol bydd WEST yn dangos ar ba lefel rydych yn gweithio, ble rydych chi eisiau cyrraedd a bydd yn dewis gweithgareddau dysgu sy'n berffaith i chi.
Os yw eich lefel targed wedi'i gosod yn rhy isel cysylltwch â Sian Williams i addasu hyn ar eich cyfer.
Mae eich holl ddysgu hunan-arweiniol ar WEST yn eich helpu i wella'ch sgiliau.

**Pam fod angen i mi wneud asesiad?**
Mae'r asesiad cychwynnol (WEST) yn ein helpu i egluro ar ba lefel rydych yn gweithio, er mwyn eich rhoi ar y cwrs cywir.
Rydym yn gwybod y gall asesiadau cychwynnol fod yn bryder – ond byddwch yn dawel eich meddwl bod eich canlyniadau'n breifat a'u bod yno i'n helpu ni i sicrhau eich bod yn cael y profiad a'r cymorth gorau posibl.

**Pa mor hir mae'r asesiad cychwynnol WEST yn ei gymryd?**
Byddai'n syniad da neilltuo awr ar gyfer hyn ar gyfer pob pwnc.
Felly, os ydych am gael eich asesu mewn mathemateg (Cymhwyso Sgiliau Rhif) a Saesneg (Sgiliau Cyfathrebu) yna neilltuwch 2 awr.
Gall gymryd llai o amser.

**Beth os nad wyf am wneud prawf?**

.

Mae'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Lefel 2 a Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu Lefel 2 yn gofyn i'r dysgwyr gwblhau tasgau dan reolaeth a phrawf cadarnhau wyneb yn wyneb mewn amodau arholiad.
Byddwch wedi paratoi'n dda ac yn cael llawer o gyfleoedd i ymarfer er mwyn lleihau nerfau. Rydym yn deall nad yw pawb eisiau gwneud prawf - felly os nad dyma'r opsiwn i chi, gallwn eich cysylltu â chyrsiau wyneb yn wyneb a / neu ar-lein lle gallwch ganolbwyntio ar eich sgiliau heb baratoi ar gyfer prawf - os byddwch yn newid eich meddwl, gallwch bob amser gael eich cysylltu'n ôl â'r rhaglen Sgiliau Hanfodol Hyblyg.

**Beth os nad oes gennyf liniadur, neu os nad wyf yn gwybod sut i fewngofnodi?**
Cysylltwch â'r Hwylusydd Sgiliau Hanfodol Hyblyg (Sian Williams) fel y gall eich cefnogi bob cam o'r ffordd ac efallai y byddwn yn gallu benthyca dyfais i chi ei defnyddio yn ystod eich astudiaethau.
Mae llawer o ddysgwyr wedi bod ychydig yn nerfus am gychwyn dysgu ar-lein ond gyda chefnogaeth byddwch yn dod i arfer gyda hyn.
Dywed llawer o’n dysgwyr wrthym pa mor ddefnyddiol yw hi i fedru dysgu gartref a pheidio â gorfod teithio.

**Oes rhaid i mi wneud y lefelau is yn gyntaf neu medrai mynd yn syth i'r profion?**
Os byddwch yn asesu ar lefel 2 ar WEST gallwch fynd yn syth i ymuno â'r cyrsiau dan arweiniad tiwtor sy'n paratoi ar gyfer y prawf. Er gallwch wneud rhai gweithgareddau dysgu hunan-arweiniol yn gyntaf os byddai'n well gennych.

**A fedrai sefyll y prawf heb ddysgu ar-lein?**
Os bydd canlyniad eich asesiad cychwynnol yn dangos eich bod eisoes ar lefel 2 gallwch ymuno â'r cyrsiau ar-lein a arweinir gan diwtor yn syth. Bydd yn rhaid i chi gymryd rhan yn y sesiynau dan arweiniad tiwtor i baratoi ar gyfer y prawf. Ni fyddwch yn gallu sefyll yr arholiad heb gymryd rhan yn y sesiynau hyn yn gyntaf.

**Pryd fedrai ddechrau dysgu?**
Gallwch ddechrau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn – gan mai chi fydd yn gwneud y dysgu ar-lein hunan-arweiniol yn gyntaf. Mae’r cyrsiau dan arweiniad tiwtor gyda’r nod o sicrhau eich bod yn barod ar gyfer eich arholiadau yn cychwyn ar ddechrau pob tymor – felly ym mis Medi, Ionawr ac Ebrill. Cynhelir yr arholiadau ar ddiwedd pob tymor felly ym mis Rhagfyr/Ionawr, Mawrth/Ebrill a Mehefin/Gorffennaf.

**Beth fydd yn digwydd os byddaf yn methu'r profion?**
Weithiau bydd dysgwyr yn methu’r profion.
Os byddwch yn methu'r prawf tro cyntaf byddwch yn cael eich cefnogi i wneud prawf ailsefyll.
Opsiwn arall yw cysylltu'n ôl i'r cwrs paratoi ar-lein fel y gallwch weithio ar welliannau cyn sefyll y profion eto.
Byddwn yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd.

**Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i ennill y cymhwyster?**
Bydd hyn yn dibynnu ar eich man cychwyn, i rai ni fydd y cam ar-lein yn ddim mwy na gloywi ond i eraill fe all gymryd mwy o amser. Rydym eisiau i chi basio'r tro cyntaf, felly bydd symud ymlaen i'r cyfnod dysgu ar gyfer paratoi i’r prawf yn cymryd mwy o amser i rai nag eraill. Yn nodweddiadol, gallwch ddisgwyl cael 40 awr o ddysgu ar-lein dan arweiniad tiwtor a 10 awr o baratoi ar gyfer profion yn yr ystafell ddosbarth.

.

**Beth fydd yn digwydd os gwnaf anghofio fy manylion mewngofnodi?**
Os byddwch yn anghofio eich manylion mewngofnodi cysylltwch â Sian Williams, yr hwylusydd Sgiliau Hanfodol Hyblyg fydd yn medru eich helpu.

**Beth yw ystyr cyrsiau hyblyg?**
Mae hwn yn gymysgedd o ddysgu ar-lein hunan-arweiniol, trwy Becyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) a dysgu ar-lein dan arweiniad tiwtor. Pwrpas y dysgu dan arweiniad tiwtor yw eich paratoi ar gyfer y profion ffurfiol sy'n gysylltiedig â chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif (Mathemateg) neu Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu (Saesneg).
Mae ein trefn brofi hyblyg yn golygu y gallwch sefyll y profion ar adegau amrywiol yn ystod y flwyddyn - ac mewn canolfannau prawf ledled Cymru.

**Pa mor hir ar ôl fy mhrofion byddaf yn gwybod os ydw i wedi pasio neu fethu?**
Rhaid marcio'r holl brofion ac yna mynd trwy’r broses Sicrwydd Ansawdd Mewnol (IQA), felly gall fod cyfnod o amser cyn i chi gael gwybod am eich canlyniadau.
Gwerthfawrogwn fod dysgwyr eisiau gwybod cyn gynted â phosibl, felly rydym yn gwneud popeth posibl i drosglwyddo'r canlyniadau yn gyflym i'n dysgwyr.

**Beth yw’r cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Lefel 2?**
Mae hwn yn gymhwyster Lefel 2 sy’n cael ei dderbyn gan y rhan fwyaf o golegau a phrifysgolion Cymru fel cymhwyster cyfwerth â gradd A-C TGAU mewn Mathemateg.

**Beth yw’r cymhwyster Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 2?**
Mae hwn yn gymhwyster Lefel 2 sy’n cael ei dderbyn gan y rhan fwyaf o golegau a phrifysgolion Cymru fel cymhwyster cyfwerth â gradd A-C TGAU mewn Saesneg Iaith.

**Gyda phwy ddylwn gysylltu os nad wyf wedi derbyn fy nhystysgrif?**
Os ydych wedi cael gwybod eich bod wedi pasio a bod lleiafswm o 6 wythnos wedi mynd heibio, a heb dderbyn eich tystysgrif, dylech gysylltu gyda thîm Ansawdd Addysgu Oedolion Cymru ar Addysg-quality-assurance@adultlearning.wales

# Frequently Asked Questions

**How do I enrol?**
On our website Adult Learning Wales
Contact the Flexible Essential Skills Coordinator.
Email: sian.williams@adultlearning.wales or telephone 02920 382431

**Who can I contact to discuss this further?**
You can contact Sian Williams the Flexible Essential Skills facilitator who would be happy to discuss your options and support you with the enrolment process.

**Is there a cost?**
The courses are part funded by the Welsh Government. Costs will depend on your personal or work circumstances.
Contact Sian Williams the Flexible Essential Skills facilitator for further information.

**What does self-led online learning mean?**
Self-led learning means that you can choose when to do the activities at a time to suit you.
You do need to try and book time in each week though so that you can progress.

**What does tutor-led online learning mean?**
Tutor led online learning means you will join an online class led by an ESW tutor. You will be linked to the tutor-led online class that best suits you.

**What is WEST?**
WEST is the Wales Essential Skills Toolkit
It was designed to be a simple and easy to use way for learners to assess their Essential Skills level.
In addition, WEST has lots of activities designed to help learners improve their skills.
When you complete your initial assessment WEST will show what level you are working at, where you want to get to and will choose learning activities that are perfect for you. If your target level is set too low contact Sian Williams to adjust this for you.
All your self-led learning on WEST is helping you improve your skills.

**Why do I need to do an assessment?**
The initial assessment (WEST) helps us clarify what level you are working at, in order to put you onto the correct course.
We know that initial assessments can be a worry – but please be assured your results are private and are there to help us ensure you have the best possible experience and support.

**How long does the initial assessment on WEST take?**
It would be a good idea to allocate one hour for this for each subject.
Therefore, if you want to be assessed in maths (Application of Number Skills) and English (Communication Skills) then allocate 2 hours.
It may well take less time.

**What if I don't want to do a test?**
The Level 2 Essential Application of Number Skills and the Level 2 Essential Communication Skills qualifications do require the learners to complete controlled tasks and a confirmatory test face to face in exam conditions.
You will be well prepared and have many opportunities to practice reducing nerves.

We do understand that not everyone wants to do a test – so if this isn't the option for you, we can link you to face to face and / or online courses where you can focus on your skills without preparing for a test – if you change your mind, you can always be linked back to the Flexible Essential Skills programme.

**What if I do not have a laptop, or don't know how to log on?**
Please contact the Flexible Essential Skills Facilitator (Sian Williams) she can support you every step of the way and we may be able to loan you a device to use during your studies.
Many learners have been a bit nervous about online learning but with support you will soon get the hang of it. Many of our learner tell us how helpful it is to be able to access their learning from home and not have to travel.

**Do I have to do the lower levels first or can I go straight to the tests?**
If you assess at level 2 on WEST you can go straight to join the tutor led courses preparing for the test. Though you can do some self-led learning activities first if you would prefer.

**Can I sit the test without on-line learning?**
If your initial assessment outcome shows you are already at level 2 you can join the tutor led online courses straight away. You will have to take part in the tutor led sessions to prepare for the test. You will not be able to sit the exam without taking part in these sessions first.

**When can I start learning?**
You can start at any point in the year – as you will be doing the self-led online learning first.
The tutor led courses which are aimed at ensuring you are ready for your exams start at the beginning of each term – so in September, Jan and April.
The exams take place at the end of each term so in December/January, March/April and June/July.

**What happens if I fail the tests?**
Sometimes learners do fail their tests.
If you fail the test first time you will be supported to do a resit test. Another option is to link back into the online preparation course so you can work on improvements before sitting the tests again.
We will support you every step of the way.

**How long will it take to achieve the qualification?**
This will depend on your starting point, for some the on-line phase will be nothing more than a brush up but for others it may take longer. We want you to pass first time so progression to the test preparation phase of learning will take longer for some than others. Typically, you can expect to undergo 40 hours of tutor-led online learning and 10 hours of classroom-based test preparation.

**What happens if I forget my log in details?**
If you forget your log in details contact Sian Williams the Flexible Essential Skills facilitator who will be able to help you.

**What do we mean by flexible courses?**
This is a mixture of self-led online learning, through the on-line Wales Essential Skills Toolkit (WEST) and tutor led online learning. The purpose of the tutor-led learning is to prepare you for the formal tests associated with the Essential Skills Wales qualifications in Essential Application of Number Skills (Maths) or Essential Communication Skills (English).
Our flexible test regime means you can sit the tests at various times throughout the year- and at test centres across Wales.

**How long after my tests will I know if I have passed or failed.**
All the tests must be marked and then go through Internal Quality Assurance (IQA) so there can be a period of time before you are informed of your results.
We appreciate that learners want to know as soon as possible, so we do everything possible to pass on the results quickly to our learners.

**What is the Level 2 Essential Application of Number Skills qualification?**
This is a Level 2 qualification that is accepted by most colleges and universities in Wales as an equivalent to GCSE A-C grade in Mathematics.

**What is the Level 2 Essential Communication Skills qualification?**
This is a Level 2 qualification that is accepted by most colleges and universities in Wales as an equivalent to GCSE A-C grade in English Language.

**Who do I contact if I do not receive my certificate?**
If you have been notified that you have passed and a minimum of 6 weeks have passed, in which you have not received your certificate, you should contact the Adult Learning Wales Quality team.
Addysg-quality-assurance@adultlearning.wales